

# AMP: Dogfen Ganllaw ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol

**Galw, angen  
ac arweiniad  
cymunedol**



**Cefnogi nodau a  
blaenoriaethau  
CBS Pen-y-bont  
ar Ogwr**



**Trosglwyddo  
asedau  
cymunedol  
cadarnhaol**



**Tryloywder**



**Cynaliadwyedd**

Cyngor Bwrdeistref Sirol



## Canllawiau Trosglwyddo Asedau Cymunedol

### CBS Pen-y-bont ar Ogwr

Croeso i'r fersiwn ddiweddaraf o Bolisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol (CAT) Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'n darparu gweledigaeth a mecanwaith clir o ran sut y bydd y Cyngor yn mynd ati ac yn ymdrin â chyfleoedd i drosglwyddo tir, adeiladau a gwasanaethau i'r Gymuned. Mae'r polisi hwn yn disodli'r Canllawiau CAT gwreiddiol a gymeradwywyd gan y Cabinet yn 2010 ac a ddiweddarwyd yn 2015. Mae'n adlewyrchu'r newid yn yr hinsawdd ariannol sy'n wynebu'r Cyngor ac yn rhoi mwy o rym yn nwylo cymunedau lleol. Mae'r Canllawiau yn rhan annatod o broses Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor.

Mewn ymateb i'r gostyngiadau a ragwelir yng nghyllid y sector cyhoeddus o ganlyniad i gyni parhaus a phwysau cynyddol a gwasanaethau'r sector cyhoeddus, bydd y Cyngor yn ceisio gweithio gyda grwpiau cymunedol cymwys sydd â buddiant i sicrhau trosglwyddiadau ac i ddarparu cymorth parhaus. Y bwriad yw helpu grwpiau cymunedol i reoli a gweithredu cyfleusterau a gobeithio sicrhau buddsoddiad yn eu dyfodol hirdymor. I'r perwyl hwn, mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda phartneriaid o'r Trydydd Sector i gefnogi grwpiau cymunedol a chlybiau chwaraeon drwy sicrhau bod y cyngor a'r arweiniad cywir ar gael i ymgeiswyr a'r rhai sydd eisoes wedi mynd ati i reoli cyfleusterau a gwasanaethau.

Mae'r Polisi hwn hefyd yn nodi sut y gellir mabwysiadu dull carlam seiliedig ar risg ar gyfer y rhan fwyaf o asedau'r Cyngor a ddylai olygu bod proses CAT yn haws i'w llywio.

#### Pwy ddylai ddarllen y Canllawiau hyn

Prif nod y polisi hwn yw rhoi gwybod i Gynghorau Tref a Chymuned, Sefydliadau'r Trydydd Sector a chlybiau chwaraeon (y cyfeirir atynt ar y cyd fel grwpiau cymunedol) am ofynion y Cyngor wrth fwrw ymlaen â phroses CAT. Mae'r Polisi wedi'i gynllunio i helpu grwpiau cymunedol i ddeall prosesau cymeradwyo a meini prawf gwneud penderfyniadau'r Cyngor. Rydym hefyd wedi cynnwys templedi ar gyfer ceisiadau a gweithdrefnau camau allweddol.

#### Defnyddio'r Canllawiau

Oherwydd natur amrywiol asedau eiddo'r Cyngor a'r amrywiaeth o geisiadau CAT, does dim modd creu un ateb sy'n addas i bawb. Felly, mae angen fframwaith cyson ac egwyddorol ond hyblyg. Mae'r Canllawiau'n canolbwyntio ar 4 egwyddor allweddol:

- ▶ **Dan arweiniad y gymuned er mwyn diwallu galw ac angen y gymuned**
- ▶ **Rhaid i unrhyw CAT gefnogi nodau a blaenoriaethau'r Cyngor**
- ▶ **Tryloywder gan gynnwys goblygiadau llywodraethu ac ariannol**
- ▶ **Cynaliadwyedd y prosiect**

Mae angen cymesuredd a synnwyr cyffredin wrth gymhwyso'r Canllawiau. Er enghraifft, efallai y bydd angen meini prawf asesu llai manwl ar brydles fer, trwydded i feddiannu neu gytundeb rheoli na phrydles tymor hwy o 35 mlynedd.

Ni fydd angen i drosglwyddiad ardal fechan o dir fod mor fanwl â phe bai'n adeilad sylweddol, yn enwedig lle mae angen cryn dipyn o gyllid allanol hefyd. Mae angen rheoli a hysbysu unrhyw risg, a dylai penderfyniadau tryloyw fod yn destun gwaith craffu gofynnol.

## Cynnwys

1. Diben y polisi hwn
2. Diffiniad o Drosglwyddo Asedau Cymunedol
3. Y cyd-destun polisi cenedlaethol
4. Y cyd-destun polisi lleol
5. Ymrwymiad y Cyngor i Drosglwyddo Asedau Cymunedol
6. Pedair egwyddor Trosglwyddo Asedau CBS Pen-y-bont ar Ogwr
7. Nodi asedau addas ar gyfer Trosglwyddo Asedau Cymunedol
8. Fframwaith ar gyfer ystyried ceisiadau am Drosglwyddo Asedau Cymunedol
9. Prosesau penderfynu
10. Ystyriaethau eiddo a chyfreithiol
11. Trosglwyddo
12. Cymorth parhaus a chydymffurfiaeth statudol
13. Cymorth a chysylltiadau Trosglwyddo Asedau Cymunedol

|            |  |
|------------|--|
| Atodiad 1  | Meini prawf ymgeisio                                       |
| Atodiad 2  | Proses Safonol CAT   |
| Atodiad 3  | Proses llwybr carlam CAT                                   |
| Atodiad 4  | System mesur goleuadau traffig RAG yn seiliedig ar asesiad |
| Atodiad 5  | Templed Mynegi Diddordeb (EOI)                             |
| Atodiad 6  | Enghraifft o Gynllun Busnes Manwl                          |
| Atodiad 7  | Enghraifft o amcanestyniadau ariannol                      |
| Atodiad 8  | Amlinelliad o asesiad diagnostig busnes                    |
| Atodiad 9  | Enghraifft o delerau prydles/trwydded                      |
| Atodiad 10 | Rhestr o adnoddau a dolenni cyswllt                        |

## Cymeradwyo dogfennau ac ymgynghoriadau

|  |   |
|--|---|
|  | Y Cabinet<br>Grŵp Gorchwyl a Gorffen CAT<br>Grŵp Llywio CAT<br>Fforwm Cyngor Tref a Chymuned<br>Canolfan Cydweithredol Cymru<br>Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo |
|--|---|

## 1. Diben y polisi hwn

Diben y polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol (CAT) hwn yw annog trosglwyddo asedau eiddo i grwpiau cymunedol i gefnogi Strategaeth Rheoli Asedau (AMP) a Gwaredu AMP y Cyngor a throsglwyddo'r gwasanaethau a ddarperir yn unol â blaenoriaethau corfforaethol ac amcanion llesiant y Cyngor.

Mae trosglwyddiad priodol yn golygu un:

- sy'n cael ei arwain gan y gymuned i ateb galw cymunedol
- sy'n cefnogi nodau a blaenoriaethau'r Cyngor
- sy'n gynaliadwy yn yr hirdymor
- sydd â goblygiadau ariannol cadarnhaol i'r Cyngor

## 2. Diffiniad o Drosglwyddo Asedau Cymunedol

Gall CAT fod ar sawl ffurf, ond yn y bôn mae'n golygu trosglwyddo stiwardiaeth a/neu berchnogaeth dros dro neu barhaol i grwpiau cymunedol. Gall dull trosglwyddo gynnwys:

- cytundeb rheoli
- trwydded tymor byr i feddiannu
- prydles tymor byr neu dymor hir
- trosglwyddo rhydd-ddaliad (amgylchiadau eithriadol yn unig)

## 3. Y cyd-destun polisi cenedlaethol

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar bob corff cyhoeddus i gyflawni datblygu cynaliadwy. Diffinnir Datblygu Cynaliadwy fel proses o wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae'r sectorau cyhoeddus, trydydd sector a busnes gan gynnwys CBS Pen-y-bont ar Ogwr wedi dod at ei gilydd ym Mhen-y-bont i ffurfio Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB). Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr wedi ymrwmo i gydweithio i wella materion lles yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr nawr ac yn y dyfodol ac wedi paratoi Cynllun Llesiant sy'n cynnwys y 4 amcan allweddol canlynol:

- Y dechrau gorau mewn bywyd
- Cefnogi cymunedau yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr i fod yn ddiogel ac yn gydlynus
- Lleihau anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd
- Dewisiadau iach mewn amgylchedd iach

### Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i roi sylw dyledus i nodau Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (Dyletswydd). Mae'r Dyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithredu mewn ffordd sy'n dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, yn hyrwyddo cyfle cyfartal, ac yn meithrin cysylltiadau da rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol, a'r rhai nad ydynt. Mae naw nodwedd warchoddedig i gyd (oedran, rhyw, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, hil, crefydd a chred, priodas a phartneriaeth sifil yn ogystal â beichiogrwydd a mamolaeth), ac mae'r holl swyddogaethau cyhoeddus wedi'u cynllunio a'u darparu mewn ffordd sy'n lleihau gwahaniaethu ac yn hyrwyddo ymgysylltiad cadarnhaol â'r rhai sy'n meddu ar nodweddion gwarchoddedig perthnasol. Bydd pob gweithgaredd CAT yn cefnogi ac yn annog dyletswyddau'r Cyngor o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 drwy sicrhau bod unrhyw weithgaredd yn cael ei asesu ar gyfer yr effaith andwyol debygol ar grwpiau gwarchoddedig ac felly'n cael ei leihau lle bo hynny'n bosibl.

### Trosglwyddo Asedau Cymunedol yng Nghymru - Canllaw Arferion Gorau

Mae nifer o adroddiadau, adolygiadau a chanllawiau cenedlaethol yn annog awdurdodau lleol i ymgysylltu â grwpiau cymunedol gyda'r bwriad o drosglwyddo asedau cymunedol. Mae 'Trosglwyddo Asedau Cymunedol yng Nghymru - Canllaw Arferion Gorau' Llywodraeth Cymru mis Mawrth 2016 yn darparu canllawiau hanfodol i awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol. Roedd CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn rhan o'r gweithgor a helpodd i lunio'r ddogfen ac mae llawer o'r canllawiau'n adlewyrchu'r dulliau a fabwysiadwyd gan y Cyngor.

## 4. Y cyd-destun polisi lleol

Nod strategaeth eiddo CBS Pen-y-bont ar Ogwr yw rhesymoli ei phortffolio eiddo a sicrhau'r canlyniad gorau er mwyn helpu i gyflawni amcanion y Cyngor. Mae hyn yn gofyn am gydbwyso ystyriaethau prisiau gorau a lleihau costau refereniw yn erbyn manteision defnydd amgen gan gynnwys trosglwyddo asedau. Ategir hyn gan strategaeth gwarediadau sy'n gweithio i sicrhau'r canlyniad gwaredu gorau i CBS Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae'n amlwg bod CAT yn cefnogi themâu blaenoriaeth y Cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Helpu pobl i fod yn fwy hunanddibynnol** – "Cymryd camau cynnar i leihau neu atal pobl rhag dod yn agored i niwed neu ddibynnu ar y Cyngor a'i wasanaethau".
- **Cefnogi economi lwyddiannus** – gan ddangos unrhyw gysylltiadau â swyddi a thwf cynaliadwy.
- **Defnydd doethach o adnoddau** – "Sicrhau bod ein holl adnoddau (ariannol, corfforol, dynol a thechnolegol) yn cael eu defnyddio mor effeithiol ac mor effeithlon â phosibl, a chefnogi'r gwaith o ddatblygu adnoddau ledled y gymuned a all helpu i gyflawni ein nodau."

## 5. Ymrwymiad y Cyngor i Drosglwyddo Asedau Cymunedol

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddefnyddio CATs lle bo hynny'n briodol. Fodd bynnag, gydag adnoddau staff cyfyngedig, mae angen **blaenoriaethu'r** ceisiadau mwyaf buddiol o safbwynt:

- a) sefyllfa ariannol y Cyngor; a
- b) effaith yn y gymuned yn nhermau:
  - Menter economaidd a chymdeithasol sy'n ysgogi buddsoddiad ychwanegol.
  - Grymuso'r gymuned.
  - Cadw a/neu wella gwasanaethau lleol y gellid eu colli oherwydd cyfyngiadau cyllidebol a thoriadau mewn gwasanaeth.
  - Meithrin gallu ac annog trydydd sector mwy cynaliadwy.
  - Cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.
  - Trechu tlodi

Mae'r polisi hwn yn nodi fframwaith i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau a dull cytûn o asesu pob cais CAT. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn cefnogi grwpiau cymunedol drwy'r broses CAT mewn ffyrdd gwahanol sy'n cynnwys:

- Canllawiau gan Swyddog CAT penodol.
- Bydd rhestr o asedau a allai fod yn addas i'w trosglwyddo mewn 'Atodlen Asedau Cymunedol' ar gael ac yn cael eu diweddarau'n rheolaidd.
- Darparu gwybodaeth berthnasol gan gynnwys:
  - data cost rhedeg
  - copïau o arolygon cyflwr
  - cynlluniau adeiladu
  - data gwasanaethu / profi
  - unrhyw wybodaeth berthnasol arall
- Cyngor dan Gontract Cymorth Busnes CAT y Cyngor gan ein sefydliadau partneriaid sy'n arbenigo mewn darparu cyngor ac arweiniad i grwpiau cymunedol.

## 6. Pedair Egwyddor Trosglwyddo Asedau CBS Pen-y-bont ar Ogwr

Er mwyn cwblhau CAT, bydd angen tystiolaeth o 4 egwyddor:

|  |   |
|--|---|
| <p><b>Angen cymunedol</b></p>  | <p>Rhaid cael cefnogaeth gref o fewn y gymuned leol. Bydd angen dangos tystiolaeth o fynediad cyfartal. Dylai aelodau o'r gymuned allu dylanwadu ar weithrediadau a phenderfyniadau arfaethedig. Rhaid bod galw clir am brosiect. Rhaid i grwpiau cymunedol hefyd sicrhau na fydd unrhyw drosglwyddiad yn disodli nac yn ystumio'r farchnad. Croesewir ceisiadau gan gonsortia, cyd-fentrau a phrosiectau cydweithredol.</p>  |
| <p><b>Cefnogi Amcanion Gwella Corfforaethol y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill</b></p> | <p>Rhaid i'r trosglwyddiad arfaethedig gefnogi'r gwaith o gyflawni Amcanion Gwella Corfforaethol / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill y Cyngor fel yr amlinellir uchod.</p>  |
| <p><b>Tryloywder</b></p>   | <p>Mae'r broses o wneud penderfyniadau wedi'i chynllunio i ddangos atebolrwydd ac wedi'i nodi'n glir yn y Fframwaith ar gyfer ystyried CATs yn adran 8 isod. Mae angen i'r broses fod yn hyblyg yn unol â chymhlethdod y ceisiadau ac adnoddau staff y Cyngor sydd ar gael. Bydd penderfyniadau'n dryloyw ac yn cael eu cyfleu'n glir.</p>  |
| <p><b>Cynaliadwyedd</b></p>  | <p>Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd ddangos ei allu i reoli'r ased yn effeithiol drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynllun ariannol:             <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Cynllun busnes manwl ar gyfer achosion cymhleth, yn enwedig os oes angen buddsoddiad sylweddol ar yr ased trosglwyddo, sy'n cynnwys gwaith adnewyddu mawr neu adeiladau newydd; neu</li> <li>○ Amcanestyniadau ariannol 5 mlynedd sy'n galluogi grŵp cymunedol i ddangos dealltwriaeth o ffrydiau incwm a gwariant cysylltiedig a chostau gweithredu ar gyfer y trosglwyddiadau symlach</li> </ul> </li> <li>• Strwythur cyfreithiol a llywodraethu priodol.</li> <li>• Asesiad o'r angen am y gweithgareddau sy'n cael eu cynnig ac ystyriaeth ynghylch a yw hyn yn cael ei ddarparu gan sefydliadau eraill ai peidio.</li> <li>• Defnydd effeithlon o'r cyfleusterau o ran gofod a chyfnodau amser.</li> <li>• Gallu a galluogrwydd sefydliadol – sgiliau cryf ar lefel bwrdd, rheoli a gweithredol i reoli'r ased a gwneud y defnydd gorau posibl o'i ddefnydd gan gynnwys bodloni unrhyw ofynion statudol.</li> </ul> |



## **7. Nodi asedau addas ar gyfer Trosglwyddo Asedau Cymunedol**

### **Amserlen asedau cymunedol**

Mae'r Cyngor wedi penderfynu y gallai'r categorïau canlynol o asedau fod ar gael dan y rhaglen CAT:

|                |   |
|----------------|---|
| Blaenoriaeth 1 | <ul style="list-style-type: none"><li>• Pafiliwn chwaraeon</li><li>• Caeau chwarae (ac eithrio caeau chwarae'r ysgol) a lawntiau bowlio</li><li>• Canolfannau cymunedol</li></ul> |
| Blaenoriaeth 2 | <ul style="list-style-type: none"><li>• Meysydd / Ardaloedd chwarae</li><li>• Meysydd parcio am ddim</li><li>• Rhandiroedd</li></ul>  |
| Blaenoriaeth 3 | <ul style="list-style-type: none"><li>• Asedau amrywiol</li></ul>   |

Cofiwch na fydd pob ased o dan y categorïau hyn yn cael ei ystyried yn addas ar gyfer CAT. Yn gyffredinol, ni fydd asedau'n cael eu hystyried yn addas ar gyfer CAT:

- Os oes angen asedau er mwyn darparu gwasanaethau hanfodol;
- Os oes ased yn cynhyrchu ffrwd incwm net i'r Cyngor;
- Os oes posibilrwydd y bydd y Cyngor am ddefnyddio'r ased yn y dyfodol, e.e. potensial ailddatblygu; neu
- Os yw'n bosibl y bydd angen i'r Cyngor gynhyrchu derbyniadau cyfalaf drwy werthu'r ased ar y farchnad agored fel rhan o'i raglen buddsoddiad cyfalaf i helpu i ariannu prosiectau fel ysgolion newydd.

Bydd asedau'r Cyngor sy'n addas i'w trosglwyddo yn cael eu diweddarau a'u nodi'n rheolaidd drwy broses gynllunio rheoli asedau gadarn y Cyngor sy'n cynnwys adolygiadau rheolaidd o'n daliadau eiddo. Bydd yr angen am asedau, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau, yn dylanwadu ar ein gofyniad am asedau. Bydd potensial yr asedau a nodir fel rhai diangen bellach, ac i'w trosglwyddo i'r gymuned yn cael eu hystyried drwy'n Strategaeth Caffael a Gwaredu.

Bydd 'Atodlen Asedau Cymunedol' yn rhestru Asedau Blaenoriaeth 1 CAT addas o bosibl ynghyd ag unrhyw gyfyngiadau penodol, a byddant ar gael i'r cyhoedd. Nid yw'r asedau hynny y mae'r Cyngor yn dymuno eu cadw at ddibenion gweithredol, ariannol neu ddibenion eraill, yn rhan o'r rhestr hon.

Wrth lunio'r amserlen a/neu wrth asesu ceisiadau, bydd angen i'r Cyngor ystyried ydy unrhyw adfachu ariannol gan ddarparwyr cronfeydd yn gymwys. Gall hyn fod yn wir os yw arian y Loteri, er enghraifft, yn cynnwys cyfyngiadau adfachu a allai gael eu sbarduno gan drosglwyddiad asedau.

### **Ceisiadau gan denantiaid / defnyddwyr presennol**

Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau gan sefydliadau cymwys sydd eisoes yn meddiannu adeilad CBS Pen-y-bont ar Ogwr sy'n ceisio amrywio eu telerau meddiannaeth, er enghraifft drwy gynyddu'r tymor prydlesu i fodloni gofynion ariannu grant neu ffurfioli trefniadau trwyddedau. Cofiwch y bydd angen i chi fodloni ein holl feini prawf ymgeisio ac asesu o hyd.

Fel arfer, nid yw prosesau adnewyddu prydlesau yn cael eu hystyried yn CATs at ddibenion ariannu

## Ceisiadau cyffredinol

Gall sefydliadau cymwys sy'n chwilio am eiddo, ond nad oes ganddynt ased penodol mewn golwg, barhau i Fynegi Diddordeb. Os ydym o'r farn bod y cais yn hyfyw ac yn bodloni ein meini prawf Cyfnod 1 byddwn yn gweithio gyda'r grŵp cymunedol i nodi ased addas o bosibl.

Ym mhob achos, byddem yn cynghori'n gryf y dylid cysylltu â Swyddog CAT y Cyngor yn y lle cyntaf er mwyn cynnal trafodaethau ffurfiol cyn gynted â phosibl.

Efallai na fydd rhai cynigion yn gofyn am gytundeb eiddo e.e. trosglwyddo gwasanaeth, cytundeb asiantaeth neu drefniant noddi. Mae'r Cyngor yn croesawu diddordeb gan ymgeiswyr i ddarparu gwasanaethau boed yn annibynnol neu ar y cyd â'r Cyngor. Fodd bynnag, mae'r Canllawiau hyn yn canolbwyntio ar drosglwyddo asedau eiddo. Dylid gwneud unrhyw gynigion i ddarparu gwasanaethau i'r Cyfarwyddwr Cymunedau.

## Blaenoriaeth ceisiadau

Rhoddir blaenoriaeth i:

- Grwpiau cymunedol sydd eisoes yn meddiannu safle (tir a/neu adeilad).
- Ceisiadau cydweithredol ar gyfer cydleoli grwpiau cymunedol gan gynnwys consortia. Mewn achosion o'r fath, dylai ymgeiswyr ystyried creu sefydliadau neu bartneriaethau 'ymbarél.

Pan dderbynnir sawl mynegiant o ddiddordeb ar gyfer un adeilad, bydd pob cais byw yn cael ei ystyried ac ni ddefnyddir dull "y cyntaf i'r felin".

## 8. Fframwaith ar gyfer ystyried ceisiadau am CAT

Mae'r Meini Prawf Ymgeisio sy'n rhaid cydymffurfio â nhw wrth ystyried trosglwyddo asedau cymunedol ar gael yn **Atodiad 1**. Bydd y graddau y bodlonir y meini prawf, cyflwr yr ased a gofynion darpar gyllidwyr yn cael eu defnyddio i bennu'r math mwyaf priodol o gytundeb trosglwyddo. Gall prydles neu drwydded tymor byr i feddiannu, neu gytundeb rheoli, fod yn fwy addas i ddechrau fel rhan o drosglwyddiad graddol neu dros dro wrth fagu hyder a meithrin gallu ychwanegol.

Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn unol â fframwaith CAT y Cyngor - naill ai'r broses 4 cam (gweler y Broses CAT Safonol yn **Atodiad 2**) neu broses "llwybr carlam" yn enwedig lle mae'r ased sy'n destun trosglwyddiad mewn cyflwr sy'n cydymffurfio (gweler y broses "Llwybr Carlam" yn **Atodiad 3**). Fel arfer, bydd y broses 4 cam safonol yn berthnasol ar gyfer:

- Pob trosglwyddiad cymhleth;
- Asedau a aseswyd fel rhai aneconomaidd i'w hatgyweirio gan y Cyngor; a
- Gwaredu asedau dros ben sydd â budd cymunedol posibl.

Bydd y Cyngor yn defnyddio system sgorio goleuadau traffig RAG yn seiliedig ar asesiad o'r risg sy'n gysylltiedig â grŵp cymunedol ac ased / gwasanaeth

sy'n destun trosglwyddiad, fel bod yr agwedd hon yn fwy tryloyw fel y dangosir yn y tabl yn **Atodiad 4**.

Mae'n ofynnol i bob grŵp cymunedol gyflwyno ffurflen Mynegi Diddordeb (EOI) sy'n gofyn am wybodaeth sylfaenol am y sefydliad, yr ased / gwasanaeth a chyswllt â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor (gweler copi o'r EOI yn **Atodiad 5**). Dylai grwpiau cymunedol gynnal trafodaethau anffurfiol gyda Swyddog CAT y Cyngor cyn paratoi a chyflwyno ffurflen mynegi diddordeb.

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod grwpiau cymunedol yn cael cyngor ac arweiniad priodol gan sefydliadau partner o dan gontract Cymorth Busnes CAT, e.e. cynllunio busnes i hwyluso'r broses CAT.

Mae'r angen am **Gynllun Busnes** manwl neu **Amcanestyniadau Ariannol** amlinellol sy'n dibynnu ar a yw'r Cyngor o'r farn bod ceisiadau'n addas o dan y safon neu'r "broses llwybr carlam", yn ganolog i'r broses hon. Mae enghreifftiau a chanllawiau ar gael yn **Atodiad 6** ac **Atodiad 7** yn y drefn honno.

## 9. Prosesau penderfynu

Dylai'r broses fod yn hyblyg ac yn hawdd ei deall ar gyfer grwpiau cymunedol. Gall graddau a manylion yr achos busnes sy'n ofynnol amrywio gyda'r math o asedau/gwasanaethau sy'n cael eu trosglwyddo. Bydd angen i'r Cyngor roi sylw i unrhyw faterion staff megis rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE), dileu swyddi a materion rheoli newid. Hefyd, disgwylir i unrhyw drosglwyddiad leihau dibyniaeth grwpiau cymunedol ar gyllid referniw'r Cyngor.

Dylai proses diwydrwydd dyladwy'r Cyngor fod yn gymesur â graddfa a chymhlethdod y cynnig:

- Bydd pob grŵp cymunedol yn destun **Asesiad Diagnostig Busnes** (gweler amlinelliad yn **Atodiad 8**) er mwyn rhoi sicrwydd i'r Cyngor ynghylch galluoedd a chapasiti grŵp cymunedol penodol a bod cyfarwyddwyr / ymddiriedolwyr y grŵp dan sylw yn gwbl ymwybodol o'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sy'n rhaid eu cyflawni. Bydd yr Asesiad Diagnostig Busnes yn cynnwys argymhellion gorfodol a dewisol (gan gynnwys elfennau hyfforddi gorfodol) er mwyn helpu i ddatblygu grwpiau cymunedol a'u bod yn dod yn ddeiliaid asedau cymwys. Bydd gweithredu argymhellion yn pennu pa mor gyflym y gellir bwrw ymlaen â'r trosglwyddiad.
- Fel arfer, caiff datganiadau CAT o ddiddordeb, cynlluniau busnes / ariannol a cheisiadau ariannu cysylltiedig o hyd at £50K eu cymeradwyo gan **Grŵp Llywio CAT**. Gellir cyfeirio CATs mawr neu gymhleth at **Banel Cyngori CAT** sy'n cynnwys sefydliadau allweddol sector cyhoeddus yr ardal a bydd angen sêl bendith y Cabinet fel arfer, yn enwedig lle mae cyllid cysylltiedig i gefnogi prosiectau yn debygol o fod yn fwy na £50K.

- Fel arfer, bydd angen cymeradwyaeth ar drafodion eiddo o dan gynllun pwerau dirprwyedig y Cyngor neu'n rhaid eu cyfeirio at y Cabinet.

Bydd y swyddog CAT yn cyflwyno'r adroddiadau gyda chymorth a chyngor gan y Landlord Corfforaethol, y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Chyllid, os oes angen.

Mae Grŵp Llywio CAT a gadeirir gan Bennaeth Gweithrediadau Gwasanaethau Cymunedol yn gyfrifol am asesu ceisiadau am gyllid Cam 1, Cam 2 a CAT cysylltiedig a bydd yr aelodau'n cynnwys uwch swyddogion o'r cyfarwyddiaethau gwasanaeth allweddol. Cynhelir ymgynghoriadau gyda Phanel Cynghori CAT (trosglwyddiadau cymhleth), Aelodau'r Cyngor a grwpiau cymunedol yn ôl y gofyn.

Bydd y penderfyniad yn adlewyrchu asesiad o'r meini prawf manwl a amlinellir yn Atodiad 1 ac ystyriaethau eraill megis:

- Gofynion asedau CBS Pen-y-bont ar Ogwr - a oes angen yr ased ar gyfer cyflenwi gwasanaethau yn y dyfodol.
- Manteision ariannol i'r Cyngor.
- A yw unrhyw adfachu ariannol gan ddarparwyr cronfeydd yn berthnasol.
- Manteision ehangach i'r Cyngor a'r gymuned.

Lle y bo'n briodol, Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau a'r Swyddog Adran 151 fydd yn gyfrifol am unrhyw benderfyniad terfynol neu bydd gofyn cyfeirio'r mater at y Cabinet. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw gais ond wrth wneud hynny, bydd yn rhoi adborth yn amlinellu'r rhesymau. Anogir ymgeiswyr i ailgyflwyno cais lle mae'r elfennau hynny wedi cael sylw digonol.

## 10. Ystyriaethau eiddo a chyfreithiol

Bydd angen i CATs ddarparu'r opsiwn gwaredu gorau i'r Cyngor, ar ffurf prydlesi yn gyffredinol. Fel arall, gall trwydded i feddiannu neu gytundeb rheoli fod yn fwy priodol. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddwn yn ystyried trosglwyddiad rhydd-ddaliad ac mae angen cymeradwyaeth y Cabinet.

Bydd hyd y brydles a gynnigir yn cael ei phennu fesul achos gan roi sylw i gyflwr yr eiddo, amgylchiadau'r prosiect, cryfderau'r ymgeisydd, a chynaliadwyedd yr achos busnes. 35 mlynedd yw'r uchafswm tymor prydlesu gan y Cyngor, oni bai bod angen cyllid allanol penodol yn y tymor hwy. Fel canllaw, fel arfer bydd angen isafswm cyfnod prydles o 10 mlynedd ar gyllid grant cyfalaf ar gyfer gwelliannau. Os bydd rhagor o arian yn dod i'r fei ar ôl rhoi'r brydles gychwynnol, efallai y bydd angen trafodaethau am gyfnod prydles estynedig yn dibynnu ar amodau'r cyllidwyr.

### Gwerthoedd rhent/marchnad

Nid yw defnyddiau cymunedol fel arfer yn denu refeniw masnachol. Yn aml, mae grwpiau cymunedol yn dibynnu ar gyllid grant ac ni allant dalu rhenti/prisiau'r farchnad am eiddo ar y cyfan. Drwy gyd-fynd â blaenoriaethau'r

Cyngor, mae 'adenillion' y Cyngor felly yn seiliedig ar y manteision cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol. Fodd bynnag, mae angen i'r Cyngor gyfiawnhau a chofnodi unrhyw benderfyniad i drosglwyddo eiddo am danbrisiad, gan gyfeirio at y canlynol:

- Prisiad o'r eiddo i nodi unrhyw werth sydd wedi'i ildio.
- 'Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003' sy'n galluogi awdurdodau lleol i fwrw ymlaen â throsglwyddiadau penodol am danbrisiad
- Darpariaethau Cymorth Gwladwriaethol i sicrhau na roddir unrhyw ddarpariaeth o'r fath, neu er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ganiatáu a bod y Cyngor yn cael ei ddiogelu.

Mae'n ddigon posibl y gellir cyfiawnhau **rhent hedyn pupur** neu rent gostyngol neu unrhyw warediad arall sy'n is na gwerth y farchnad, ond ni ddylid rhagdybio hynny. Mae angen i Landlord Corfforaethol y Cyngor gyfiawnhau penderfyniad i roi telerau consesiynol. Efallai y bydd angen cymeradwyaeth y Cabinet yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Wrth benderfynu ar y rhent, rhoddir ystyriaeth i'r canlynol:

- Gwerth yr eiddo.
- Costau rheoli a rhedeg yr eiddo.
- Sefyllfa ariannol y grŵp cymunedol.
- Graddau'r budd i'r Cyngor o ran arbedion refeniw a/neu ddarparu gwasanaethau.

Cyfrifoldeb y grŵp cymunedol yw dangos bod angen telerau consesiynol. Y ffordd orau o ddarparu hyn fydd drwy gyfeirio at eu cynllun busnes neu eu hamcanestyniadau ariannol.

### Amodau/telerau prydlesu eraill

Mae prydles neu drwydded yn cynnig cyfleoedd o ran hunanreoli a hefyd yn dod â mwy o gyfrifoldebau cydymffurfiaeth iechyd a diogelwch ac eiddo statudol. Mae crynodeb o'r prif delerau craidd dangosol i ystyried eu cynnwys mewn prydles neu drwydded ar gael yn **Atodiad 9**.

### Caffael ynni

Mae'n debygol bod cyflenwadau ynni presennol yr eiddo dan sylw, yn rhan o gontract caffael ynni canolog y Cyngor yn y tymor hwy. Mae'r arfer hwn o swmp-brynu ynni yn darparu tariff ffafriol i'r Cyngor a gall meddiannydd grŵp cymunedol newydd fynegi dymuniad i aros ar y contract hwn er mwyn parhau â'r tariff. Er hynny, y Cyngor sy'n atebol yn y pen draw am unrhyw achos o beidio â thalu, o dan y contract hwn. Yn gyffredinol, felly, dylai'r grŵp cymunedol gontractio ar wahân ar gyfer ei gyflenwadau ynni ei hun. Hefyd, mae'n bwysig nad yw'r grwpiau cymunedol sy'n defnyddio ynni i gyfrif am unrhyw ymrwymadau lleihau allyriadau carbon. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan Reolwr Contractau Ynni'r Cyngor.

## 11. Trosglwyddo

Wrth drosglwyddo, bydd y Cyngor yn cyflenwi, lle bynnag y bo modd, ffolder a luniwyd gan Landlord Corfforaethol y Cyngor, sy'n cynnwys:

- Manylion yr holl fanylion profi a gwasanaethu statudol.
- Asesiad risg tân.
- Gwybodaeth a thystysgrifau iechyd a diogelwch.
- Rhestr o'r profion cyffredinol sydd eu hangen ar adeiladau.
- Rhestr o'r contractwyr mae'r Cyngor yn eu defnyddio ac sy'n barod i ddarparu gwasanaethau tebyg i grwpiau cymunedol.
- Manylion darlleniadau cyfleustodau.

Mae gan y Cyngor Swyddog Cydymffurfio a fydd yn gweithredu fel dolen gyswllt allweddol o fewn Landlord Corfforaethol i roi arweiniad i grwpiau cymunedol ar faterion technegol mewn adeiladau ac yn helpu deiliaid i sicrhau bod safleoedd yn cydymffurfio â'r gofynion.

Un o brif flaenoriaethau grwpiau cymunedol fydd deall gofynion iechyd a Diogelwch a chydymffurfiaeth statudol a'u bod yn gallu eu bodloni. Mae rhai dolenni cyswllt defnyddiol i wefannau ar gael isod, ac mae cymorth ar gael gan Swyddogion y Cyngor os bydd unrhyw bryderon neu amheuan am ofynion cydymffurfio.

<http://www.hse.gov.uk/voluntary/village-legal.htm>

<http://www.hse.gov.uk/voluntary/assets/docs/village-hall.pdf>

<http://www.hse.gov.uk/toolbox/fire.htm>

Hefyd, bydd y Cyngor yn darparu'r holl allweddi ac unrhyw wybodaeth arall sydd ei hangen i weithredu'r safle'n ddiogel.

Bydd y trosglwyddiad yn digwydd gyda'r swyddog arweiniol enwebedig ar gyfer yr ymgeiswyr ynghyd â'r person dynodedig sy'n ymdrin â chydymffurfiaeth statudol (os ydynt yn wahanol).

## 12. Cymorth parhaus a chydymffurfiaeth statudol

Bydd y Landlord Corfforaethol hefyd yn cynghori ac yn cadarnhau unrhyw ganiatâd landlord gofynnol ar gyfer unrhyw waith, addasiadau neu amrywiadau a gynigir i'r safle.

Gofynnir i ymgeiswyr nodi unigolyn dynodedig y sefydliad a fydd yn gyfrifol am y safle a'r gwaith profi a gwasanaethu angenrheidiol. Yr unigolyn hwn fydd y pwynt cyswllt allweddol ar gyfer y Landlord Corfforaethol. Byddant yn gyfrifol am sicrhau bod y safle'n ddiogel o hyd ac yn cydymffurfio yn unol ag unrhyw

ofynion statudol, a bydd angen iddynt fod yn ymwybodol o'u rôl a'u cyfrifoldebau.

Hefyd, gofynnir i ymgeiswyr roi adborth i'r Cyngor ar eu prosiect o safbwynt y cynnydd hyd yn hyn, y cerrig milltir a gyflawnwyd, y problemau a gafwyd a thargedau ar gyfer y dyfodol. Disgwylir hyn yn flynyddol fel arfer, ond gall fod yn fwy rheolaidd os oes angen. Hefyd, disgwylir i ymgeiswyr gytuno i siarad ag ymgeiswyr posibl eraill sydd â phrosiect tebyg pe bai angen, er mwyn rhoi cyngor ac awgrymiadau i helpu gyda'u cais.

Byddai disgwyl i unrhyw gais am adborth neu wybodaeth gan y Cyngor gael ei roi o fewn 21 diwrnod oni bai bod brys mawr.

**Mae'n debygol y bydd angen caniatâd landlord ar gyfer unrhyw waith addasu neu wella yn y dyfodol, yn ychwanegol at waith cynnal a chadw arferol. Rhaid i chi siarad â'r Cyngor cyn dechrau unrhyw waith. Bydd y Landlord Corfforaethol yn gallu rhoi cyngor ar ofynion gan gynnwys yr angen am unrhyw ganiatâd posibl arall – cynllunio, rheoliadau adeiladu ac ati.**

### 13. Cymorth a chysylltiadau Trosglwyddo Asedau Cymunedol

Mae'r Cyngor yn cynghori'n gryf eich bod yn datblygu cais ac achos busnes gyda chymorth cynghorydd busnes a ddynodwyd dan Contract Cymorth Busnes CAT.

Efallai y bydd angen cymorth gwahanol gydol oes y prosiect ar grwpiau cymunedol sy'n ymgymryd â safle (adeilad a/neu dir). Gall hyn ddechrau gyda chymorth cychwynnol i ffurfio sefydliad, i helpu grwpiau i ddatblygu busnesau neu sefydlu braich fasnachu. Bwriad Contract Cymorth Busnes CAT yw cefnogi pob cam o CAT, nid dim ond cynorthwyo gyda defnydd cychwynnol eiddo. Drwy gael siop un stop, gall ymgeiswyr neu feddianwyr gyfeirio materion ac awgrymiadau at y Swyddog CAT a sicrhau eu bod yn cael y cymorth mwyaf priodol ar y pryd.

Mae rhestr o adnoddau a dolenni perthnasol i gyngor ar CAT ar gael yn **Atodiad 10**.

Bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd nodi pwy yw dolen gyswllt allweddol eu grŵp cymunedol er mwyn llywio proses CAT. Gwneir hyn er mwyn osgoi dryswch ynglŷn â phwy sy'n cael cyngor a gwybodaeth. Yn achos y Cyngor, y pwynt cyswllt allweddol yw ein Swyddog CAT sydd ar gael drwy e-bostio: [Guy.Smith@bridgend.gov.uk](mailto:Guy.Smith@bridgend.gov.uk) neu ffonio: (01656) 815323.

Gofynnir i ymgeiswyr hefyd nodi'r unigolyn ym mhob sefydliad sy'n gyfrifol am sicrhau bod safle (adeilad a/neu dir) yn parhau i gydymffurfio ag unrhyw

gyfrifoldebau cyfreithiol ac yn ddiogel i bobl ei ddefnyddio. Gall fod yn berson gwahanol i'r cyswllt allweddol.



## Atodiad 1 - Meini Prawf Ymgeisio

### a) Rhaid i'r Ymgeisydd fodloni'r canlynol:

#### Cyngor Cymuned/Tref neu Grŵp Cymunedol, sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:

- Endid cyfreithiol corfforedig ac sy'n darparu atebolrwydd cyfyngedig i'r rhanddeiliaid dan sylw. Fel arfer, byddai ar ffurf cwmni, cymdeithas, CIO (Sefydliad Corfforedig Elusennol) neu CIC (Cwmni Buddiannau Cymunedol). Rhaid iddo alluogi rheoli/perchnogaeth adeiladau a darparu gwasanaethau.
- Yn bodoli er budd cymunedol/cymdeithasol/amgylcheddol.
- Dosbarthu dielw - rhaid ail-fuddsoddi unrhyw wargedion i hyrwyddo ei fuddiannau cymunedol/nodau cymdeithasol.
- Dangos elfennau llywodraethu da drwy brosesau agored ac atebol, gyda rheolaethau ariannol ac archwilio priodol.
- Dangos ymgysylltiad â'r gymuned.
- Dangos bod ganddo'r sgiliau a'r gallu, neu ar gael i ddarparu ei wasanaethau'n effeithiol a rheoli'r ased.
- Yn meddu ar yswiriant digonol ac yn gallu cydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch statudol i weithredu'r ased/gwasanaeth.
- Darparu gwasanaethau neu gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n sicrhau buddiannau economaidd, amgylcheddol neu gymdeithasol i'r gymuned.
- Darparu copïau o Adroddiad Blynyddol a chyfrifon y sefydliad os ydynt ar gael.
- Gyda chysylltiadau cryf â'r gymuned leol ac o fudd uniongyrchol i bobl y fwrdeistref sirol.
- Er budd amrywiaeth mor eang ac amrywiol â phosibl o bobl leol a dangos ymagwedd gynhwysol at bob aelod o'r gymuned.
- Proses benderfynu wedi'i dylanwadu gan y gymuned leol.

### b) Yr Ased

- Buddiant cyfreithiol sy'n eiddo i'r Cyngor y gall y sefydliad ddangos budd cymunedol ohono.
- Mae'r ased ym mherchnogaeth rhydd-ddaliad/lesddaliad y Cyngor.
- Dylid annog ceisiadau am aml-ddefnydd a chyd-leoli gwasanaethau.

### c) Defnydd arfaethedig

- Mae angen a galw am y gweithgareddau arfaethedig a rhoddir ystyriaeth i weld a yw sefydliad arall yn mynd i'r afael â hyn yn foddhaol ai peidio.
- Bydd y defnydd arfaethedig yn cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.
- Bydd y defnydd arfaethedig yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gynhyrchu incwm er mwyn sicrhau cynaliadwyedd.

- Mae'r grŵp cymunedol wedi pennu faint o le sydd ei angen arno i gyflawni ei gynigion, a sut y bydd yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r ased.
- Bydd y defnydd arfaethedig yn sicrhau cyrhaeddiad helaeth a chynhwysol i'r gymuned a bydd yn agored i bawb.

### ch) Cynllun busnes a chyllid

O dan y polisi diweddaraf, dim ond amcanestyniadau incwm a gwariant am o leiaf cyfnod o 5 mlynedd fydd eu hangen ar gyfer trosglwyddiadau asedau cymunedol a gaiff eu hystyried yn addas ar gyfer "llwybr carlam", er mwyn galluogi grŵp cymunedol i ddangos dealltwriaeth o'r costau cysylltiedig o reoli a dangos cynaliadwyedd yr ased.

Fodd bynnag, mae cynllun busnes cadarn sy'n nodi'n glir gweithrediad a darpariaeth gwasanaethau a gallu ariannol a sefydliadol y sefydliad i ddarparu'r gwasanaethau/ gweithgareddau arfaethedig a rheoli'r ased yn hanfodol i lwyddiant unrhyw drosglwyddiad, yn enwedig os oes angen buddsoddiad sylweddol ar ased trosglwyddo'r Cyngor sy'n cynnwys gwaith adnewyddu mawr neu waith adeiladu newydd.

## Atodiad 2 – Proses Safonol CAT

| Y CAM YMGEISIO   | GOFYNION   | PWY SY'N PENDERFYNU  | AMSERLENNI TARGED  |
|--|--|--|--|
| <p><b>CAM 0</b><br/>Trafodaeth anffurfiol cyn ymgeisio</p>   | <p>Cyn cyflwyno ffurflen Mynegi Diddordeb, dylai ymgeiswyr drafod eu cynigion gyda'r Swyddog CAT.</p>  | Amherthnasol   | Amherthnasol   |
| <p><b>CAM 1</b><br/>Cyflwyno ffurflen <b>Mynegi Diddordeb ffurfiol (EOI)</b> (Atodiad 3) i Swyddog CAT</p> <p>Bydd y Cyngor yn darparu unrhyw wybodaeth berthnasol am yr asedau sydd ar gael</p>   | <p>Amlinellu achos busnes ar ffurf EOI i ddarparu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Manylion y sefydliad</li> <li>• Trefniadau llywodraethu</li> <li>• Defnydd arfaethedig o asedau a buddion</li> <li>• Buddiannau i'r gymuned, y Grŵp Cymunedol a'r Cyngor</li> <li>• Cymorth gan y gymuned/partneriaid</li> </ul> <p>Os cefnogir y cais, bydd y Grŵp Cymunedol yn symud ymlaen i Gam 2. Os na chefnogir y cais, rhoddir esboniad llawn.</p>   | <b>Grŵp Llywio CAT</b>   | 6 wythnos ar ôl derbyn y ffurflen Mynegi Diddordeb   |
| <p><b>CAM 2</b><br/><b>Diagnosteg Busnes a Chynllun Busnes</b></p> <p>Efallai y bydd cymorth ar gael dan gcontract Cymorth Busnes CAT y Cyngor (gan ein partneriaid Canolfan Cydweithredol Cymru ac Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo)</p> | <p>Asesiad cychwynnol o'r grŵp cymunedol gan Gyngorydd Busnes mewn ymgynghoriad â Swyddog CAT i bennu capasiti / galluedd a llywio anghenion y dyfodol o dan y Contract Cymorth Busnes.</p> <p>Adroddiad yn amlinellu'r meysydd sydd angen gweithredu arnynt yn orfodol ac yn ddewisol. Rhaid cwblhau'r holl ofynion gorfodol, e.e. mynychu digwyddiadau hyfforddi penodol (llywodraethu, dyletswyddau a chyfrifoldebau cyfarwyddwyr, ac ati.) cyn cytuno ar unrhyw drosglwyddiad.</p> <p>Cynlluniau Busnes Manwl a baratowyd gan y Grŵp Cymunedol – (gweler yr enghraifft yn Atodiad 5):</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dadansoddi anghenion a'r defnydd a ragwelir</li> <li>• Math o drosglwyddiad a geisir a pham</li> <li>• Canlyniadau a buddiannau wedi'u cynllunio a sut y cânt eu mesur/monitro</li> <li>• Manylion unrhyw waith partneriaeth/cydweithio arfaethedig</li> <li>• Hanes o ddarparu gwasanaeth/rheoli eiddo</li> <li>• Y gallu i reoli'r ased</li> <li>• Cynlluniau 5 mlynedd ar gyfer cyllid refeniw a chyfalaf – incwm a gwariant rhagamcanol gan gynnwys costau rheoli a gweithredu'r ased</li> <li>• Cynaliadwyedd ariannol a blaengynllunio</li> </ul> | <p>Asesiad Diagnostig y Busnes i'w asesu gan Swyddog CAT / Grŵp Llywio CAT</p> <p>Cynlluniau busnes i'w hasesu gan yr Adran Gyllid</p> | <p>O fewn 4 wythnos i gymeradwyo Cam 1</p> <p>Cynllun busnes llawn i'w gyflwyno o fewn 12 wythnos i gymeradwyaeth Cam 1 os yn bosibl</p> |

## Polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol

| Y CAM YMGEISIO   | GOFYNION  | PWY SY'N PENDERFYNU   | AMSERLENNI TARGED                                  |
|--|---|---|--|
